**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-14-01 (p.7)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 24 Hydref 2001**
**Lle:** **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Ymestyn Addysg ac Ymchwil Meddygol yng Nghymru**

## Pwrpas

1.Rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau ar gynigion i ymestyn addysg ac ymchwil meddygol i israddedigion yng Nghymru.

## Crynodeb

2.Mae'r papur hwn yn nodi:

- Cefndir
- Camau hyd yma
- Cynnydd y Grwp Strategaeth Lefel Uchel ar Addysg ac Ymchwil Meddygol
- Y camau nesaf

## Amseriad

3.Nod y Grwp Strategaeth Lefel Uchel yw gwneud argymhellion terfynol ar ddyfodol addysg ac ymchwil meddygol yng Nghymru cyn gynted â phosibl yn y Flwyddyn Newydd. Bwriedir cynnal dadl ar y pwnc yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ym Mehefin 2002.

## Cefndir

4.Roedd fy mhapur blaenorol (HSS-18-00 (p.7)) yn rhoi'r newyddion diweddaraf ichi ar y targed a bennwyd gan Weinidogion yr Adran Iechyd i sicrhau cynnydd o 3000 yn y lleoedd sydd ar gael i israddedigion meddygol yn ystod y cyfnod 2000-2005. Gan ddefnyddio fformwla Barnet fel sail i'r cyfrifiad, byddai cynnydd cymesur yng Nghymru yn golygu creu 180 o leoedd ychwanegol i israddedigion bob blwyddyn.

## Camau hyd yma

5. Hyd yn hyn, rwy wedi cyhoeddi y bydd 100 o leoedd ychwanegol ar gael i israddedigion yng Nghymru bob blwyddyn - 35 lle o Fedi 1999 a 65 arall o Fedi 2001. Bydd hyn yn golygu bod cyfanswm o 290 o fyfyrwyr israddedig yn cael eu hyfforddi yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru bob blwyddyn. Er mwyn cefnogi'r cynnydd hwn, rydym wedi sefydlu Ysgol Glinigol newydd yn Abertawe.

Cymeradwywyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer yr ysgol hon ar 1 Hydref a bydd yn agor yn swyddogol ar 23 Tachwedd. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi y caiff £1.5 miliwn yn ychwanegol o Gynnydd Gwasanaeth ar gyfer Dysgu (*SIFT - Service Increment for Teaching*) ei roi o'r cyllid canolog eleni i gefnogi'r cynnydd yn niferoedd myfyrwyr. Gan ddibynnu ar ganlyniad y cylchoedd cynllunio cyllideb nesaf, bwriedir i'r cyllid ychwanegol godi yn y blynyddoedd nesaf i tua £3.7 miliwn yn 2003/04 a nod hyn yw sicrhau bod Ymddiriedolaethau y tu allan i Gaerdydd ac Abertawe yn derbyn darpariaeth ychwanegol ar gyfer yr wythnosau myfyrwyr ychwanegol y bydd eu hangen.

**Cynnydd y Grwp Strategaeth ar ddyfodol Addysg ac Ymchwil Meddygol yng Nghymru**

6.Yn *Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid* addewais y byddai'r Grwp hwn yn cael ei sefydlu. Mae'r Grwp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r NHS, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru ac ELWa ynghyd â swyddogion hn o'r Cynulliad â chyfrifoldebau amrywiol. Mae'r Grwp wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma ac mae wedi bod yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer ymestyn, gan gynnwys:

- Achos busnes bras ar gyfer cynllun mynediad i raddedigion i addysg feddygol yng Nghymru wedi'i llunio gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.
- Cynigion bras ar ymestyn addysg feddygol yn y Gogledd wedi'i llunio gan gonsortiwm o Ymddiriedolaethau lleol yr NHS a Sefydliadau Addysg Uwch.
- Achos busnes bras ar gyfer ymestyn cyfleusterau addysg feddygol ar safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi'i baratoi gan Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent.
- Cynigion ar gyfer cynghrair strategol dros addysg ac ymchwil yng Nghymru yn seiliedig ar system addysg ryng-broffesiynol a dulliau gweithio rhyng-ddisgyblaethol.
- Anghenion cyffredinol Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru Caerdydd o ran adeiladau ac isadeiledd.

**Y camau nesaf**

7.Bydd parhau ar sail targedau Lloegr ar gyfer lleoedd i israddedigion yn golygu sicrhau bod 80 yn rhagor o fyfyrwyr meddygol yng Nghymru bob blwyddyn erbyn 2005. Byddai hynny'n golygu y gallai Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru dderbyn 370 bob blwyddyn ac mae'r Coleg wedi dweud y bydd unrhyw gynnydd pellach yn afrealistig. Fel cam cyntaf, fodd bynnag, mae'r Grwp yn argymell bod mwy o waith yn cael ei wneud i weld beth fydd anghenion penodol a gwahanol gweithlu meddygol yr NHS yng Nghymru. Eleni am y tro cyntaf, gofynnwyd i Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru ystyried cynllunio gweithlu meddygol ac mae gweithgor wedi'i sefydlu i archwilio'r data cychwynnol ar nifer yr ymgynghorwyr ac asesu anghenion y gweithlu meddygol yng Nghymru am y deng mlynedd nesaf. Caiff canlyniadau'r gwaith hwnnw eu defnyddio wedyn i benderfynu i ba raddau y mae angen ymestyn niferoedd israddedigion y tu hwnt i'r 100 o leoedd ychwanegol sydd wedi'u cyhoeddi'n barod ac i gynllunio ar gyfer hynny yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael.

8.Bydd y Grwp yn gwneud argymhellion terfynol cyn gynted â phosibl yn y Flwyddyn Newydd. Wrth

gwrs fe fydd angen i unrhyw argymhellion roi sylw arbennig i werth am arian a chynnig dull cost-effeithiol o fynd ati i ymestyn cyfleusterau addysg ac ymchwil meddygol yng Nghymru. Byddwn yn disgwyl i achosion busnes trylwyr gael eu paratoi ar gyfer pob cam o'r broses.

**Cyllid**

9.Mae cyllid ar gyfer y 100 o fyfyrwyr meddygol ychwanegol cychwynnol, i sefydlu Ysgol Glinigol Abertawe, ac ar gyfer y dyraniad SIFT ychwanegol o 2001-2002 wedi'i gytuno fel rhan o setliadau cylchoedd cynllunio cyllideb blaenorol. Bydd ymestyn addysg feddygol ymhellach yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer y sector gwirfoddol, a darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysg sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen ar gyfer blaenoriaethau pwysig eraill. Ni fyddai modd fforddio ymestyn fel arall. Bydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn ddibynnol ar ddatblygu achosion busnes trylwyr ac ar ba mor fforddiadwy yw'r cynigion.

**Camau i'w cymryd**

10.Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r datblygiadau mewn perthynas ag ymestyn cyfleusterau addysg ac ymchwil meddygol yng Nghymru.

**JANE HUTT**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â Carl Eley, Addysg yr NHS, Y Gangen Hyfforddi a Datblygu, Yr Is-adran Adnoddau Dynol, Parc Cathays (Est: 3635)